YDI AWR BARNU BABILON WEDI DOD?

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i ddeall ystyr yr ymadrodd Beiblaidd "Babilon Fawr" a'u cael nhw i ddeall fod y farn sydd arni yn un gyfiawn fydd yn cael ei gwireddu cyn bo hir. Helpwch nhw i weld fod ffoi o Fabilon waed-euog yn fater o frys cyn y bydd yn rhy hwyr.

PWY YDI'R WRAIG SYMBOLAIDD SY'N CAEL EI 'NABOD FEL BABILON FAWR (8 mun.)

Mae'r Beibl yn dweud am "Babilon Fawr" mai "putain fawr" a "dinas fawr sydd â'r frenhiniaeth ganddi ar frenhinoedd y byd" ydi hi (Dat 17:1, 5, 15, 18)

Ymerodraeth ydi teyrnas sydd dros deyrnasoedd a chenhedloedd eraill (*it*-1 240)

Nid ymerodraeth yn yr ystyr wleidyddol ydi hon gan ei bod hi wedi puteinio gyda brenhinoedd y ddaear ac yn twyllo'r holl genhedloedd â'i "dewiniaeth" (Dat 18:3, 23)

Mae ei chyfeillion ym myd masnach a gwleidyddieth yn galaru amdani wrth i ddeg corn y bwystfil ysgarlad ei dinistrio (Dat 17:16, 17; 18:9-19; *re* 267-8)

Mae hi'n elyn i wir addoliad (Dat 17:4, 6; 19:1, 2)

O ystyried y ffactorau hyn 'rydym yn dod i ddeall mai ymerodraeth fyd-eang gau grefydd ydi Babilon Fawr (*re* 235)

Mae arwyddocâd arbennig i gyfeirio at Babilon Fawr fel putain

Er enghraifft, cafodd cenedl Israel ei rhybuddio fod ymuniaethu â chenhedloedd Canaan yn "buteinio ar ôl eu duwiau" (Ex 34:12-16; *it*-1 240)

Cafodd Israel a Jwda eu condemnio gan Jehofah am "buteinio" gyda'r cenhedloedd gwleidyddol a'u duwiau (Esec 16:15-17, 26-30, 38; Eseia 1:21; Jer 3:6-10, 13; Hos 6:10; 7:11; 8:9, 10; *it*-1 1037)

Fe rybuddiodd Iago rhag cyfeillachu â'r byd gan mai godineb ysbrydol fyddai hynny (Iago 4:4)

Yn wir, Babilon Fawr, sy'n puteinio â "brenhinoedd y ddaear", ydi "mam puteiniaid [ysbrydol]" (Dat 17: 2, 5; *re* 237-8, 244)

GWAED-EUOGRWYDD BABILON FAWR (20 mun.)

Er bod yr enw Babilon Fawr yn dangos ei bod yn cyfateb yn ysbrydol i Fabilon hen, mae gwaed-euogrwydd gau grefydd yn hŷn na sefydlu Babilon gan Nimrod (Ge 11:1-4)

Rhaid i gau grefydd ateb am waed "pawb a laddwyd ar y ddaear" (Darllen Datguddiad 18:24)

Wrth iddo gondemnio arweinwyr crefyddol Iddewiaeth, fe ddangosodd Iesu i gau grefydd gychwyn ar y ddaear adeg y gwrthryfel cyntaf (Darllen Mathew 23:33-36) (*w*91 12/1 20)

Satan gyflwynodd gau grefydd yng ngardd Eden (*g*89 1/8 5)

Wrth iddi wrando ar dwyll Satan a chwenychu'r ffrwyth gwaharddedig, Efa oedd y eilunaddolwr dynol cyntaf (Gen 3:6, 17-19; *it*-1 1168)

Daeth Satan yn "lladdwr dynion", a thrwy hynny roi cychwyn i hanes gwaed-euog gau grefydd (Ioan 8:44; Gen 3:1-5)

Cain, ac yntau'n gau addolwr, oedd y cyntaf i dywallt gwaed cyfiawn (Gen 4:8-10)

Mae ymerodraeth fyd eang gau grefydd yn llwyr haeddu barn dienyddiol Jehofah (Dat 18:8, 20; *re* 256-8)

Rhaid dial ei gwaed-euogrwydd erchyll (Dat 18:24; *re* 245, 270-1)

O safbwynt Jehofah, mae gau grefydd hefyd yn waed-euog am beidio â dysgu'r gwirionedd (Marc 7:7, 8; *re* 271)

Nid yw ei phreiddiau wedi dysgu am wirionedd gwir gariad brawdol (Micha 4:3, 5; Ioan 13:34, 35; Actau 10:34, 35; 1Ioan 3:10-12; *w*96 4/15 13-14)

Mae addoli yn ôl y gwirionedd yn anhepgor os ydym i blesio Duw ac ennill iachawdwriaeth dragwyddol (Ioan 4:24; 2Cor 4:3, 4; 1Tim 2:3, 4; Dat 21:27; *re* 310)

Mae arferion a dysgeidiaeth crefyddol gau—megis athrawiaeth y Drindod, yr enaid anfarwol, a thân uffern—yn dwyn gwarth ar Dduw

Addoliad "ofer" yw hyn yn ôl Iesu (Math 15:7-9)

Yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mae'n rhaid i Babilon Fawr ateb i Jehofah am waed "*pawb* a laddwyd ar y ddaear"

Bydd yn cael ei difa'n llwyr "a llosgir hi'n ulw mewn tân" (Dat 16:19; 17:16; 18:8, 17, 21-23; *re* 256, 270)

Daw barn ar gau grefydd "mewn un awr" (Dat 18:10, 17, 19; *w*97 4/1 14; *w*89 4/15 15-16)

YDI DISTRYW BABILON FAWR YN AGOS? (7 mun.)

Mae "arwydd" cyfansawdd "dyfodiad ('presenoldeb,' *NW*) [Crist] ac o ddiwedd y byd" wedi bod ar gynnydd oddi ar 1914 (Math 24:3; *w*97 4/1 5-8; *w*93 3/1 4-6)

Wrth gyfeirio at wahanol agweddau'r "arwydd", dywedodd Iesu y byddent yn debyg i "ddechrau'r gwewyr" ('gwewyr esgor,' *Kingdom Interlinear*) (Math 24:8)

Yn union fel mae gwewyr esgor yn cynyddu ac yn dwysáu, felly mae trallod y drefn bresennol yn dwysáu wrth i'r farn ar Fabilon nesáu (2Tim 3:1, 13; *w*83 4/1 6)

Ar y trothwy mae 'amlygiad' nodedig o 'bresenoldeb Crist' (*NW)* (Darllen 2 Thesaloniaid 2:8) (*re* 282)

Mae digwyddiadau yn y byd yn awgrymu fod distryw dwyfol ar warthaf gau grefydd

DIHANGWCH RHAG Y FARN AR FABILON WAED-EUOG—FFOWCH I DDIOGELWCH! (10 mun.)

Mae angen gweithredu ar y rhybudd yn Datguddiad 18:4 (*w*93 5/1 24)

Gan fod Babilon Fawr yn waed-euog i'r eithaf, rhaid ffoi i'r ddinas noddfa wrthluniol (*w*95 11/15 15-20)

Dan ddeddf Moses, 'roedd Duw yn ei drugaredd, wedi darparu dinasoedd noddfa yn llochesau ar gyfer y dynladdwr anfwriadol (Darllen Numeri 35:11, 12)

Rhaid i ninnau, os ydym i elwa o drugaredd Duw heddiw, ffoi i'r ddinas noddfa wrthluniol ac aros ynddi (Darllen Numeri 35:26-28)

Gallwn ein helpu'n hunain i aros yn y ddinas noddfa drwy fod ar ein gwyliadwriaeth i osgoi agweddau a deniadau'r byd a bod yn helaeth bob amser yng ngwaith yr Arglwydd (*re* 126)

Wrth inni barhau i ddangos ein ffydd yn aberth Iesu a manteisio ar ei wasanaeth yn Archoffeiriad, cawn osgoi ein dienyddio pan ddistrywir Babilon Fawr a gweddill y drefn bresennol (Dat 7:9, 10, 14)

Bydd diwedd gau grefydd yn dynodi cychwyn cyfnod newydd yng ngweithredu Penarglwyddiaeth Duw (Darllen Datguddiad 19:1, 2, 6) (*re* 274-5)

Yn dilyn hyn daw diwedd brys ar weddill cyfundrefn Satan (Dat 19:19-21)

Wrth inni weithredu 'nawr a chadw'n ffyddlon i Jehofah, byddwn yn mwynhau bendithion y byd newydd cyfiawn fydd yn dilyn (Math 24:13; Dat 21:1-4)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser penodol ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob ysgrythur a grybwyllir na gwneud sylwadau arnynt)

© 2002 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania Cedwir Pob Hawl